❖ Tyrd, Fy Llawenydd a'm Gogoniant

Tyrd, wir oleuni,
Tyrd, fywyd tragwyddol.
Tyrd, ddirgelwch cuddiedig.
Tyrd, drysor heb enw.
Tyrd, realrwydd tu hwnt i eiriau.
Tyrd, berson tu hwnt i bob deall.
Tyrd, lawenydd diddarfod.
Tyrd, obaith di-sigl y gwaredigion.
Tyrd, yr atgyfodiad a'r bywyd.
Tyrd, yr hollalluog, oherwydd yr wyt ti'n creu,
yn ail-lunio ac yn gweddnewid popeth yn ôl dy ewyllys.
Tyrd, yr anweledig un na all neb dy gyffwrdd.
Tyrd, oherwydd y mae dy enw yn wastad ar ein geneuau
ac yn llenwi'n calonnau â hiraeth amdanat.
Tyrd, oherwydd ti dy hun yw'r dyhead o'm mewn.
Tyrd, fy anadl a'm heinioes.
Tyrd, gysur fy enaid gwan.
Tyrd, fy llawenydd, fy ngobaith,
fy niddanwch tragwyddol.

Simeon y Diwinydd Newydd